Diwrnod Cofio'r Holocost 2026: Pontio'r Cenedlaethau

PAPUR THEMA

Trosolwg

Bob blwyddyn, mae Diwrnod Cofio'r Holocost (HMD) yn cael ei siapio gan thema benodol sy'n llywio sut rydym yn cofio, yn myfyrio ac yn dysgu. Mae lleisiau'r goroeswyr a thystiolaeth gan unigolion a lofruddiwyd yn yr Holocost neu mewn hil-laddiadau diweddar, wrth wraidd y coffáu hyn. Mae eu hanesion uniongyrchol yn dyfnhau ein cysylltiad emosiynol â'r drasiedi mewn ffordd na allai unrhyw werslyfr byth. Maen nhw'n ein cyffwrdd, yn ein herio, ac - yn bwysicaf oll - yn amddiffyniad pwerus yn erbyn pob gwadu ac ystumio ar yr hanes.

Ond wrth i amser fynd rhagddo, ac yn ystod y degawd nesaf, rydym yn wynebu'r realiti torcalonnus na chawn y fraint o glywed y straeon hyn o lygad y ffynnon, gan y rhai wnaeth fyw trwy erchyllterau'r Holocost – sef llofruddiaeth systematig chwe miliwn o ddynion, menywod a phlant Iddewig. A phan ddaw'r foment honno, rydym mewn perygl o golli mwy nag atgofion personol yn unig. Heb y tystion byw hyn, gallai dwyster y dioddefaint a'r brys garw i fynd i'r afael â chasineb ac anoddefgarwch yn ein hoes, ddechrau pylu. Felly sut mae sicrhau nad ydym byth yn anghofio am dywyllwch yr Holocost a'r gwersi sydd ganddo i bob un ohonom ni?

Thema Diwrnod Cofio'r Holocost 2026

Mae'r thema ar gyfer HMD 2026 – *Pontio'r Cenedlaethau* - yn alwad i weithredu. Mae'n ein hatgoffa nad yw'r cyfrifoldeb o gofio yn gorffen gyda'r goroeswyr - mae'n byw trwy eu plant, eu hwyrion a phob un ohonom.

Mae'r thema hon yn ein hannog bob yr un i ymgysylltu'n weithredol â'r gorffennol: i wrando, dysgu a sicrhau parhad y gwersi hynny. Trwy wneud hynny, rydym yn adeiladu pont rhwng y cof a chamau gweithredu, rhwng hanes a gobaith ar gyfer y dyfodol.

Pam 'Pontio'r Cenedlaethau'?

Wrth i'r blynyddoedd fynd heibio, rydym yn symud yn bellach mewn amser o'r Holocost ac o'r hil-laddiadau eraill, mwy diweddar sy'n cael eu coffáu ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost. Mae yna risg i'r pellter hwnnw: bod y cof yn pylu, bod realiti creulon yr hyn a ddigwyddodd yn dechrau mynd yn fwy aneglur a haniaethol, neu ei fod hyd yn oed yn cael ei gwestiynu. Mae *Pontio'r Cenedlaethau* yn tynnu sylw at rôl hanfodol y genhedlaeth nesaf i warchod coffadwriaeth yr Holocost a sicrhau bod y cofio'n parhau. Mae'n tynnu sylw at bŵer deialog rhwng y cenedlaethau - o wrando ar y rhai a ddaeth o'n blaenau a rhannu'r straeon hynny gyda'r rhai sy'n dod ar ein holau. Wrth wneud hynny, rydym nid yn unig yn gwarchod y cof – rydym hefyd yn ei gysylltu â'r presennol.

Dydy hil-laddiad ddim yn gwahaniaethu ar sail oedran: mae babanod, plant, oedolion a'r henoed i gyd wedi profi dioddefaint erchyll mewn ffyrdd gwahanol. Mewn llawer o achosion, cafodd llinach gyfan eu lladd. Mae *Pontio'r Cenedlaethau* yn ein gwahodd i anrhydeddu pob bywyd - ac anrhydeddu'r rhai heb deulu uniongyrchol i barhau â'u gwaddol – gyda'u gwaddol yn fyw nid trwy linach ond trwy lyfrau, ffilmiau a deongliadau eraill.

Cwmpas y thema

a. Pwy yw'r 'cenedlaethau'?

Y genhedlaeth a lofruddiwyd: Y chwe miliwn o bobl Iddewig a lofruddiwyd yn yr Holocost, y bobl nad oeddent yn Iddewig a lofruddiwyd oherwydd eu bod yn hoyw, yn anabl, yn Roma neu'n Sinti, neu'n aelod o gymuned arall a dargedwyd gan y Natsïaid. Y miliynau o bobl a lofruddiwyd yn yr hil-laddiadau diweddar a gydnabyddir gan y llywodraeth (yng Nghambodia, Rwanda, Bosnia, a phobl Yazidi) ac yn Darfur. Cenhedlaeth gyfan o bobl y cafodd eu bywydau a'u lleisiau eu dwyn oddi arnynt mewn ffordd giaidd.

Y genhedlaeth gyntaf: y goroeswyr eu hunain, y rhai wnaeth fyw drwy'r Holocost a'r hil-laddiadau eraill. Mae llond llaw o oroeswyr gwerthfawr yr Holocost gyda ni hyd heddiw. Yn ogystal, gallwn ymchwilio i dystiolaethau'r rhai a oroesodd yr Holocost ac a fu farw yn y 1960au, 70au, 80au ac yn fwy diweddar. Bydd y thema hon yn annog trefnwyr Diwrnod Cofio'r Holocost i ymchwilio i'r rhai a brofodd ac a oroesodd yr Holocost fel oedolion ond a fu farw yn y degawdau dilynol.

Mae'r thema hefyd yn cynnwys goroeswyr cenhedlaeth gyntaf yr hil-laddiadau mwy diweddar, llawer ohonynt yn rhannu eu hanesion yn nigwyddiadau Diwrnod Cofio'r Holocost bob blwyddyn.

Yr ail a'r drydedd genhedlaeth - plant ac wyrion goroeswyr - sy'n cario'r gwaddol hwnnw mewn ffordd bersonol iawn. Iddyn nhw, mae'r straeon hyn yn hanes teuluol.

Pobl heddiw - o unrhyw genhedlaeth - heb unrhyw gysylltiad teuluol uniongyrchol â'r Holocost neu â hil-laddiadau diweddar - bydd llawer ohonynt yn trefnu ac yn cymryd rhan mewn digwyddiadau Diwrnod Cofio'r Holocost ledled y wlad. Mae eu rôl nhw yr un mor hanfodol. Trwy addysg, deialog a pharodrwydd i gyfrannu, rydym bob yr un yn etifeddu'r cyfrifoldeb o gofio. Mae *Pontio'r Cenedlaethau* yn ymwneud â phob un ohonom. Mae'n golygu ymestyn dros amser a phrofiadau i gadw'r cof a'r hanes yn fyw gan eu defnyddio i lunio dyfodol sy'n gwarchod urddas pob bod dynol.

b. Beth mae 'pontio' yn ei olygu?

Pontio o berson i berson – gall gynnwys trosglwyddo atgofion, megis dod o hyd i ffyrdd o rannu straeon am yr Holocost ac am hil-laddiadau diweddar sy'n taro tant gyda phobl heddiw - trwy dystiolaethau, ie, a hefyd trwy addysg, celf, llenyddiaeth, ffilm a'r cyfryngau digidol. Gall gynnwys deialog rhwng cenedlaethau: nain neu daid

yn rhannu atgofion, myfyriwr yn holi goroeswr neu bobl ifanc sy'n ymgysylltu â phlant ac wyrion y goroeswyr eu hunain - mae'r rhain i gyd yn creu lle a chyfle arbennig i ddeall.

Pontio gan 'dystion tawel' - arteffactau hanesyddol yw'r 'tystion tawel' sy'n darparu tystiolaeth o'r gorffennol i genedlaethau ein dydd. Mae'r rhain yn llythrennol yn 'erthyglau ffaith' - ffotograffau, llythyrau, dyddiaduron, dogfennau ac eitemau personol oedd yn perthyn i bobl a gafodd eu herlid, eu llofruddio neu a oroesodd - ac a fydd yn parhau i fodoli ymhell ar ôl i'r unigolion farw. Mae dysgu am yr arteffactau hyn, o ble ddaethon nhw a sut y cyrhaeddon nhw'r DU, yn gallu dweud cymaint wrthym am hanes yr Holocost neu am hil-laddiadau mwy diweddar. Mae rhai mewn amgueddfeydd ledled y DU a'r byd, eraill wedi'u cynnwys fel rhan o'n hadnoddau ni - gallwch fynd i'n gwefan i weld sut y gall arteffactau ein helpu i bontio'r cenedlaethau.

Pontio o'r cofnod hanesyddol - gall archifau wedi'u digido helpu i bontio cofnodion y gorffennol sy'n cael eu cadw mewn archifdai, amgueddfeydd neu gasgliadau teuluol.

Bydd *Pontio'r Cenedlaethau*, yn annog cyd-gyfrifoldeb, gan gydnabod bod cofio yn dasg i bob yr un ohonom - un sy'n gofyn i bob cenhedlaeth gymryd cam ymlaen. Gyda'n gilydd ar Ddiwrnod Cofio'r Holocost, byddwn yn creu empathi ac yn meithrin dealltwriaeth, gan ddefnyddio gwersi'r Holocost a hil-laddiadau diweddar i hogi ein hymwybyddiaeth a dyfnhau ein tosturi yn wyneb anghyfiawnder ein hoes.

Digwyddiadau lleol Diwrnod Cofio'r Holocost

Gallai eich digwyddiad lleol gynnwys unrhyw un o'r elfennau canlynol:

- Creu cyfleoedd i unigolion o bob oed ddod at ei gilydd a dysgu am yr Holocost, erledigaeth y Natsïaid a hil-laddiadau mwy diweddar.
- Ysbrydoli pobl ifanc i ddod yn geidwaid gweithredol cofio'r Holocost - er enghraifft:

i. mae *Barnabas Balint* wedi bod yn Hyrwyddwr Ieuenctid HMDT ac mae'n trefnu cynhadledd flynyddol HMD er mwyn annog a helpu ei gyfoedion i ddysgu mwy am yr Holocost a'r hil-laddiadau diweddar.

- Rhoi'r grym yn nwylo cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol i wneud safiad yn erbyn rhagfarn, casineb, anoddefgarwch a gwahaniaethu o bob math.
- Archwilio effeithiau hirdymor yr Holocost ar oroeswyr a'u disgynyddion (trawma sy'n cael ei drosglwyddo rhwng y cenedlaethau).
- Ymchwilio i archifau digidol.
- Ymweld ag Amgueddfa'r Holocost (yn bersonol neu ar-lein).

Straeon bywyd y gellid eu cynnwys yn eich digwyddiad Diwrnod Cofio'r Holocost

Dim ond 15 oed oedd **Anne Frank** pan fu farw o deiffws yng ngwersyll crynhoi Bergen-Belsen. Mae hi, ochr yn ochr â llu o blant eraill, yn cynrychioli cenhedlaeth o fywydau a chwalwyd cyn pryd, wedi'u dwyn yn rhy fuan gan erchyllterau'r Holocost. Darllenwch fwy am hanes bywyd Anne Frank.

Peter Lantos BEM a oedd wedi dioddef erchyllterau gwersyll crynhoi Bergen-Belsen erbyn iddo droi'n 30 oed, ac wedi colli'r rhan fwyaf o'i deulu. Dychwelodd i'w wlad enedigol, Hwngari, yn ddiweddarach lle dioddefodd gamdriniaeth gan y llywodraeth gomiwnyddol a oedd wedi meddiannu'r wlad. Er gwaethaf hyn, enillodd radd feddygol cyn ffoi i'r DU yn y pen draw.

Ganwyd **Eva Clarke BEM** dan yr amgylchiadau mwyaf dirdynnol yn nyddiau ola'r Ail Ryfel Byd. Cafodd ei geni ychydig y tu allan i giatiau gwersyll crynhoi Mauthausen yn Awstria ar 29 Ebrill 1945, ddiwrnod yn unig ar ôl i'r Natsïaid redeg allan o nwy ar gyfer y siambrau a llai nag wythnos cyn y rhyddhau.

Ganed **Mala Tribich MBE** ym 1930 yn Piotrków, Gwlad Pwyl. Hi oedd yr ail o dri o blant - gyda brawd hŷn, Ben, a chwaer iau, Lusia. Chwalwyd ei phlentyndod ym 1939 pan wnaeth Natsïaid yr Almaen oresgyn Gwlad Pwyl, gan orfodi ei theulu i symud i geto Piotrków - y geto Natsïaidd cyntaf a sefydlwyd yng Ngwlad Pwyl. Roedd y lle'n orlawn o bobl a oedd yn dioddef o ddiffyg maeth difrifol a'r ofn cyson o gael eu halltudio.

Cafodd **Li-Da Kruger,** gwneuthurwr ffilmiau a chynhyrchydd o fri, ei geni yng Nghambodia ym 1975. Gadawodd ei mamwlad ychydig ddyddiau cyn i'r Khmer Rouge drefnu'r hil-laddiad a hawliodd filiwn a mwy o fywydau rhwng 1975 a 1979.

Yr ail, y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth

Dydy effaith hil-laddiad ddim yn dod i ben gyda'r rhai sy'n ei brofi'n uniongyrchol – gall bara cenedlaethau. Mae plant ac wyrion goroeswyr yn aml yn cario pwysau trawma a etifeddwyd ar eu hysgwyddau, ac yn cael eu siapio gan atgofion am sgyrsiau gyda rhieni a neiniau a theidiau a distawrwydd llethol y rhai aeth o'u blaenau.

Llwyddodd tad-cu **Avital Mendelsohn**, Yisrael Abelesz, i oroesi Auschwitz Birkenau a chafodd ei ryddhau gan luoedd Rwsia pan oedd yn 14 oed. Mae Avital wedi bod yn rhannu ei hanes o oroesi, gobaith a gwytnwch dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae hi'n credu ei bod yn anrhydeddu ei waddol trwy addysgu eraill ac annog sgyrsiau ystyrlon ar sut i greu byd mwy goddefgar ac empathig.

Cysylltwch â Generation 2 Generation i gael rhagor o wybodaeth am aelodau o'r ail a'r drydedd genhedlaeth sy'n rhannu tystiolaeth eu perthnasau.

Mae **Baronita Adam** yn aelod o'r gymuned Roma; mae wedi siarad am y rhagfarn a wynebodd gydol ei hoes ac am atgofion ei mam o gael ei thargedu gan y Natsïaid a'i charcharu mewn gwersyll crynhoi.

Darllen a chymorth pellach

- Generation 2 Generation
- Northern Holocaust Education Group (NHEG)
- Shoah Foundation
- Holocaust Testimony UK - AJR
- 80 Objects/80 Lives
- Ordinary Objects Extraordinary Journeys (OOEJ)
- My Home Town Project

Darllen pellach

- ***The Diary of a Young Girl,* gan Anne Frank.** Gan ddechrau ar ei phen-blwydd yn 13 oed, mae dyddiadur Anne yn olrhain ei phrofiadau o erledigaeth ac o guddio rhag y Natsïaid yn yr Ail Ryfel Byd.
- ***Night*, gan Elie Wiesel.** Cofnod o brofiadau'r awdur a'i dad yng ngwersylloedd crynhoi Auschwitz a Buchenwald.
- ***Yellow Star-Red Star,* gan Dr. Agnes Kaposi.** Mae cofiant ingol o Dr. Agnes Kaposi yn rhannu ei phrofiad o ddechrau'r Ail Ryfel Byd a sut y llwyddodd i oroesi, diolch i gyfres o wyrthiau a chyd-ddigwyddiadau.
- ***Holocaust Trauma and Psychic Deformation: Psychoanalytic Reflections of a Holocaust Survivor,* gan Alfred Garwood**. Yn oroeswr Bergen-Belsen, mae Alfred Garwood yn archwilio'r trawma seicolegol enfawr a ddioddefodd cenhedlaeth o oroeswyr yr Holocost.
- ***Parallel Lines: A Journey from Childhood to Belsen,* gan Peter Lantos.** Taith bachgen ifanc o dref wledig gysglyd yn Hwngari trwy Ewrop a rwygwyd gan y rhyfel i wersyll crynhoi Bergen-Belsen.
- ***Hitler, Stalin, Mam and Dad: A Family Memoir of Miraculous Survival,* gan Daniel Finkelstein.** Cofiant ingol am brofiad rhieni Daniel Finkelstein yn nwylo dau unben hil-laddiad yr 20fed ganrif.